CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 22 Mehefin, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y Cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynghorwyr D. Lewis a D. Patel.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd - Cynghorwyr Mrs. N. Mackie a M. Michael (Caerdydd) a

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr J.W. Thomas ac E. Williams.

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD -

PENDERFYNWYD - BOD y Cynghorydd M. Michael yn cael ei benodi i swydd Cadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD -

PENDERFYNWYD - BOD y Cynghorydd E. Williams yn cael ei benodi i swydd Is-Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol.

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. DATGANIADAU DIDDORDEB –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR (CCARPC/SA151) –

PENDERFYNWYD -
(1) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac awdurdodi Rheolwr Gyfarwyddwr Cyngor Bro Morgannwg i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig y Cynghorau partner eraill.

(2) Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Bodloni'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 o'r Cytundeb Cydweithio.

(2) Dechrau'r broses o archwilio cyfrifon 2020/21 yn ffurfiol.

EITEM AGENDA 7. CYNLLUN BUSNES Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y Cydbwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r Cynllun Busnes Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2021/22.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2021/22 pe bai'r angen yn codi.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Nododd y Cytundeb Cydweithio (yng nghymal 14) y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bob blwyddyn yn llunio Cynllun Busnes drafft o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli. Diben y Cynllun Busnes, fel y nodwyd gan y Cytundeb Cydweithio, oedd diweddaru'r wybodaeth yn y Cynllun Busnes blaenorol; a nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Nododd y Cytundeb Cydweithio ymhellach y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo, ac, ar ôl ei gymeradwyo, y dylid ei ddosbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig pob awdurdod cyfranogol.

(2) Bydd awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes yn galluogi gwneud mân newidiadau, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cydbwyllgor. Yn ogystal â lleihau'r baich ar y Cydbwyllgor, roedd y dull hwn yn golygu y gellid gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion a gododd.